



## Cyflwyniad

Pasiwyd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) yn 2000. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawliau mynediad newydd ar droed at ddibenion hamdden awyr agored. Yng Nghymru, dechreuodd yr hawliau a roddir o dan y Ddeddf ym mis Mai 2005.

Mae arwynebedd yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf CGHT, tir sydd wedi'i ddynodi'n dir hygyrch o dan y Ddeddf CGHT a thir sydd â hawl mynediad statudol o dan ddeddfwriaeth arall yn fwy na 450,000 hectar (tua 21% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru). Mae hyn yn ychwanegol at 33,000 cilometr o lwybrau â hawliau tramwy cyhoeddus, llawer o draethau, parciau gwledig, llwybrau tynnu a llwybrau beicio, ac ardaloedd arwyddocaol eraill o dir lle mae'r perchnogion a'r deiliaid yn caniatáu i'r cyhoedd fod ar eu tir.

Nid yw'r Ddeddf CGHT yn diddymu unrhyw hawliau mynediad sydd eisoes yn bodoli, nac yn gwahardd perchnogion a deiliaid tir rhag caniatáu mynediad i diroedd eraill, nac yn eu hatal rhag caniatáu gweithgareddau eraill nad ydynt yn rhan o'r hawliau. Ar y tudalennau canlynol ceir atebion i rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin ynglŷn â'r darpariaethau mynediad o dan Ran 1 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Lle'r ydym yn trafod y Ddeddf yng nghyd-destun yr hawliau mynediad, dylid cymryd bod hyn yn golygu Rhan 1 o'r Ddeddf. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ynglŷn â deddfwriaeth arall lle mae'r Ddeddf hon yn effeithio arni. Mae'r cwestiynau a'r atebion hyn wedi cael eu rhannu'n wahanol bynciau. Dim ond arweiniad a roddir yn yr atebion ac ni ddylid eu hystyried yn ddatganiad diffiniol o'r gyfraith.

## Cynnyws

### 1. Hawliau mynediad agored

Ble mae'r hawliau mynediad yn bodoli?

Ble nad yw'r hawliau mynediad yn bodoli?

A yw coetiroedd a choedwigoedd yn dir mynediad?

A yw'r hawliau mynediad yn cynnwys llynnoedd ac afonydd? Beth yw ystyr mynediad cyflwynedig?

### 2. Hawliau a chyfrifoldebau defnyddwyr

Beth yw'r hawliau mynediad?

Pa weithgareddau sydd heb gael eu cynnwys fel rhan o'r hawliau mynediad o dan Ran 1 o'r Ddeddf CGHT?

O dan y Ddeddf CGHT, oes gen i hawl i fynd â'm ci ar dir mynediad?

A yw'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i bobl farchogaeth ceffyl neu reidio beic ar draws tir mynediad?

Pa weithgareddau masnachol neu weithgareddau wedi eu trefnu nad ydynt yn cael eu cynnwys yn yr hawliau mynediad?

A yw mynediad ar droed yn cynnwys mynediad ar gyfer crwydro ceunentydd?

A yw mynediad ar droed yn cynnwys crwydro ceubyllau ac ogofa?

A yw hawliau mynediad yn cynnwys caniatâd I gludo canŵau a gleiderau barcut ar draws tir mynediad?

A yw'r hawliau hyn yn effeithio ar hawliau mynediad eraill? Sut mae pobl yn cyrraedd tir mynediad?

Beth sy'n digwydd os nad oes hawl tramwy cyhoeddus yn arwain at ardal o dir mynediad ac oddi wrtho?

Beth ddylwn i ei wneud os gwelaf fod mynediad i dir mynediad wedi cael ei rwystro?

A fydd ffiniau tiroedd mynediad a'r mynedfeydd penodol iddynt yn cael eu nodi ar lawr gwlad?

### 3. Hawliau a chyfrifoldebau tirlfeddianwyr a deiliaid

**A yw perchnogion a deiliaid tir yn derbyn iawndal oherwydd fod hawl mynediad i'w tir?**

A yw gwerth tir yn llai oherwydd ei fod wedi cael ei fapio fel tir mynediad?  
Beth yw'r cyfyngiadau ar newid defnydd tir sydd wedi cael ei ddynodi'n dir mynediad? A yw'r Ddeddf CGHT yn atal perchnogion a deiliaid tir rhag codi ffensys ar dir mynediad?  
Pwy sy'n talu am gamfeydd (sticlau) a giataiau ar dir mynediad?  
Oes rhaid gosod giât neu gamfa (sticil) mewn unrhyw ffens neu wal sy'n croesi tir mynediad?  
Pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw camfeydd (sticlau) a giataiau fel eu bod yn gweithio'n effeithiol?  
Beth yw'r effaith ar gytundebau rheoli sy'n bodoli eisoes?  
Beth sy'n digwydd os bydd angen i mi wneud gwaith ar fy nhir a allai wrthdaro gyda mynediad cyhoeddus?  
A gaf i gau fy nhir ar gyfer dibenion rheoli tir, megis saethu, am ragor na 28 diwrnod?  
Sut mae'r cyhoedd yn cael gwybod am unrhyw gyfyngiadau ar dir mynediad?  
Pwy sy'n gyfrifol am osod arwyddion ar dir lle mae mynediad wedi ei gyfyngu?  
A allaf i gadw cŵn oddi ar fy nhir?  
Beth am afiechydon a heintiau sy'n cael eu cario gan gŵn?

#### **4. Atebolrwydd Deiliaid**

Beth yw Atebolrwydd Deiliaid?  
Pwy yw'r deiliad?  
Sut mae atebolrwydd perchnogion a deiliaid yn newid oherwydd bod mynediad i dir o dan y Ddeddf CGHT?  
Beth yw'r effaith ar atebolrwydd dros dresmaswyr os byddaf yn cau fy nhir?  
Beth yw'r effaith ar atebolrwydd deiliaid mewn perthynas â mwyngloddiau a chwareli ar dir mynediad?  
Oes gan berchnogion a deiliaid tir ddyletswydd gofal, o dan ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch, tuag at y cyhoedd ar dir mynediad?  
A gynghorir perchnogion tir i godi rhagor o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus os ydynt yn berchen ar dir lle mae hawliau mynediad mewn grym?  
A yw perchnogion a deiliaid tir yn atebol os bydd cerddwraig feichiog yn comesgor ar ôl dod i gysylltiad â baw neu droeth (piso) defaid?  
A oes gofyn i berchnogion a deiliaid tir sicrhau nad yw'r da byw ar dir mynediad yn debygol o fod yn fath a allai fod yn beryglus, fel sy'n wir ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus?  
Sut mae'r Ddeddf yn ymdrin â thresmasu?

#### **5. Mapio tir mynediad**

A gaf i wrthwynebu os yw fy nhir yn cael ei fapio fel tir mynediad?  
Pa ardaloedd o ffridd neu dir coed cae sy'n cael eu cynnwys fel cefn gwlad agored?  
A yw tir o gwmpas ffermydd gwynt yn cael ei eithrio?  
Beth sy'n digwydd i dir comin sy'n cael ei dynnu oddi ar y gofrestr o diroedd comin?  
A yw'r mapiau'n dangos y coetiroedd hynny lle mae hawliau mynediad?  
A yw'r canran o dir sy'n cael ei fapio'n gefn gwlad agored neu'n dir comin cofrestredig yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr?  
Pa mor aml fydd y mapiau mynediad yn cael eu hadolygu?  
Ble gallaf i ganfod rhagor am waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar fapiau mynediad?

## **6. Cadwraeth Natur**

Sut mae mynediad yn effeithio ar gadwraeth natur?

## **7. Wardeiniaid**

A oes rhagor o wardeiniaid ar gael i reoli mynediad ar dir mynediad?

## **8. Fforymau Mynediad**

Beth yw Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru?

Beth yw Fforymau Mynediad Lleol?

Beth yw ffiniau ardaloedd y Fforymau Mynediad Lleol?

## **9. Cyhoeddusrwydd**

Sut byddaf i'n gwybod ble mae gen i hawl i fynd?

A yw mynedfeydd penodol i dir mynediad yn cael eu dangos ar fapiau?

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i hysbysu ac i addysgu'r cyhoedd am eu hawliau a'u cyfrifoldebau?

# 1. Hawliau mynediad agored

## Ble mae'r hawliau mynediad yn bodoli?

Mae'r hawliau'n berthnasol i dir sy'n cael ei alw'n 'dir mynediad'.

Mae tir mynediad yn cynnwys:

- tir comin;
- tir sydd wedi ei fapio gan Cyfoeth Naturiol Cymru' yn gefn gwlad agored, ac
- unrhyw fath o dir a gynigir gan ei berchennog i'w ddefnyddio'n dir mynediad (tir a gyflwynwyd).

Tir Comin yw tir sydd wedi ei gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965. Cefn gwlad agored yw tir sydd un ai yn llwyr neu'n bennaf yn fynydd-dir, yn weundir, yn rhostir neu'n fryniau.

## Ble nad yw'r hawliau mynediad yn bodoli?

Nid yw Rhan 1 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol i unrhyw ardaloedd lle mae eisoes hawliau mynediad cyhoeddus tebyg neu well at ddibenion hamdden awyr agored. Bydd yr hawliau hynny'n parhau o dan y ddeddfwriaeth flaenorol: er enghraifft ar dir comin trefol, ar dir sydd â hawliau tebyg o dan ddeddfau lleol neu ddeddfau preifat ac ar dir sy'n destun cytundebau mynediad o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Nid yw'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol i ardaloedd a ystyrir yn 'dir wedi ei eithrio'. Mae'r mathau o dir sydd wedi'u heithrio yn cael eu nodi yn Atodiad 1 i'r Ddeddf a rhestrir hwy isod:

- Adeiladau a'r tir yn union o'u cwmpas.
- Tir o fewn 20 metr i dŷ neu adeilad parhaol a ddefnyddir i gadw da byw, oni bai fod rhaid i chi ddefnyddio giât, camfa neu lwybr cyhoeddus er mwyn cyrraedd y tir mynediad.
- Corlannau tra'u defnyddir i drin a thrafod da byw.
- Parciau a gerddi.
- Chwareli gweithredol a gweithfeydd cloddio mwynau ar wyneb y tir.
- Rheilffyrdd a thramffyrdd.
- Cyrsiau golff, meysydd awyr a meysydd rasio.
- Tir a ddefnyddir i hyfforddi ceffylau rasio, ond dim ond rhwng toriad gwawr a chanol dydd ac ar adegau eraill pan fydd y tir wrthi'n cael ei ddefnyddio i hyfforddi ceffylau rasio.

- Tir tan weithfeydd a ddefnyddir ar gyfer ymgymeriadau statudol neu delathrebu a hefyd ffiniau'r tir hwn (adeiladwaith yn gysylltiedig â chyfleustodau cyhoeddus fel is-orsafoddedd trydan a mastiau teleffon).
- Tir sy'n cael ei reoleiddio gan is-ddeddfau o dan Ddeddfau Tiroedd Milwrol 1892 a 1900.
- Gall tir sy'n cael ei ddatblygu fel ei fod yn un o'r dosbarthiadau uchod, fod yn dir eithriedig ei hun.

Er nad yw'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi unrhyw hawliau i ardaloedd o'r fath, mae'n bwysig deall y gall fod mynediad cyhoeddus ar rai o'r tiroedd hyn o dan drefniadau statudol neu ganiatadol eraill. Nid yw caeau cyfan o laswelltir wedi'i wella neu wedi'i led-wella neu gaeau o gnydau yn cael eu mapio'n dir mynediad, onid ydynt yn dir comin neu wedi cael eu cynnig yn dir mynediad trwy eu cyflwyno. Mae'r Ddeddf hefyd yn atal hawliau mynediad ar gefn gwlad agored neu dir comin os yw'n cael ei drin a'i feithrin, ac am gyfnod o 12 mis yn dilyn unrhyw driniaeth o'r fath. Diben hyn yw atal pobl rhag sathru ar gnydau a glaswellt.

### A yw coetiroedd a choedwigoedd yn dir mynediad?

Dim ond os yw coetir hefyd yn dir comin, neu'n rhan fach o ardal sydd yn bennaf yn gefn gwlad agored, neu os yw wedi'i gyflwyno'n dir mynediad gan y perchennog yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, y mae'n cael ei ystyried yn dir mynediad. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'i ystâd rydd-ddaliad. Gall cyrff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol eraill gyflwyno eu coedwigoedd, ond hwy biau'r penderfyniad. Efallai y bydd gan y cyhoedd fynediad i goetiroedd a choedwigoedd eraill o dan Ddeddfau eraill, neu oherwydd bod y perchennog neu'r deiliad tir yn ei ganiatáu.

### A yw'r hawliau mynediad newydd yn cynnwys llynnoedd ac afonydd?

Os yw tir mynediad yn cynnwys dyfroedd, mae hawl gan bobl i gael mynediad i'r manau hynny ar droed. Nid yw'r hawliau mynediad yn cynnwys yr hawl i ymdrochi, i bysgota nac i fynd â chychod ar lynnoedd neu afonydd nad ydynt o dan ddylanwad y llanw, hyd yn oed os yw'r ardaloedd hyn o ddŵr o fewn tir mynediad. Mae angen caniatâd y perchennog, fel arfer, er mwyn cael mynediad at ddŵr ar gyfer y gweithgareddau hyn. Gall perchennog benderfynu llacio'r fath gyfyngiadau ar yr hawliau ac efallai y bydd hawliau mynediad eraill i ardaloedd o'r fath yn bodoli'n barod. Gall perchennog neu ddeiliad hefyd wneud neu barhau ag unrhyw drefniadau eraill o ran mynediad i'r cyhoedd y dymuna eu caniatáu.

### Beth yw ystyr 'mynediad cyflwynedig'?

O dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gall perchnogion tir roi eu tir o'u gwirfodd (neu ei 'gyflwyno') ar gyfer mynediad cyhoeddus, pa un ai y byddai'n dir mynediad fel arall ai peidio. Un rheswm dros gyflwyno tir sydd eisoes yn dir mynediad yw er mwyn caniatáu gweithgareddau ychwanegol, fel marchogaeth ceffylau neu feicio. Mae cyflwyno'n barhaol, hyd yn oed os yw'r tir yn newid dwylo (neu, os yw'n berthnasol, hyd oni ddaw prydles i ben).

## 2. Hawliau a Chyfrifoldebau Defnyddwyr

## Beth yw'r hawliau mynediad?

Yr hawl yw gallu mynd ar droed ar dir mynediad at ddibenion hamdden awyr agored. Mae'r hawl mynediad yn cynnwys gweithgareddau fel dringo, rhedeg, gwylio adar a chael picnics. Efallai y bydd cyfyngiadau ar y mynediad weithiau, fel yr amlinellir isod ac yn Adran 3.

## Pa weithgareddau sydd heb gael eu cynnwys fel rhan o'r hawliau mynediad o dan Rhan 1 Deddf CGHT?

Nid yw'r hawl i fynd ar dir mynediad yn rhoi hawl i bobl ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol, oni bai fod y perchennog neu'r deiliad yn caniatáu hynny:

- Gyrru neu reidio unrhyw gerbyd (ac eithrio cerbydau pobl anabl).
- Marchogaeth ceffyl neu reidio beic.
- Gwersylla.
- Gleidio barcut neu baragleidio.
- Cario neu ddefnyddio datgelydd metel.
- Gemau wedi'u trefnu.
- Trefnu neu ymgymryd â gweithgareddau at unrhyw bwrpas masnachol.
- Ymdrochi, nofio, neu ddefnyddio cwch neu hwylfwrdd yn neu ar ddŵr nad yw o dan ddylanwad y llanw, fel llynnoedd neu afonydd.
- Hebrwng neu dywys unrhyw anifail ar wahân i gi.
- Cynnau neu wneud unrhyw beth a allai achosi tân.
- Hela, saethu, pysgota neu gario unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn.
- Difrodi'r tir neu ddifrodi unrhyw beth ar y tir, megis planhigion, coed, cnydau, ffensys neu waliau.
- Cymryd unrhyw beth a mynd ag ef oddi ar y tir.
- Aflonyddu ar dda byw neu fywyd gwyllt.
- Atal llif y dŵr mewn cyrsiau dŵr a draeniau.
- Gadael gatiau ar agor (oni bo'n rhesymol cymryd bod y giât i fod i gael ei gadael yn agored).
- Gosod hysbysiadau.
- Gadael sbwriel.
- Rhwystro, aflonyddu ar, neu boeni pobl sy'n ymgymryd â gweithgaredd cyfreithlon.
- Troseddu.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Ddeddf yn gwahardd y gweithgareddau hyn os yw'r perchennog neu'r deiliad yn eu caniatáu. Er enghraifft, mae rhai perchnogion a deiliaid eisoes yn caniatáu gweithgareddau cyfreithlon fel gwersylla, marchogaeth, digwyddiadau masnachol a digwyddiadau wedi'u trefnu ac nid yw'r Ddeddf yn newid y sefyllfa hon. Gall perchnogion hefyd ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru neu i'r awdurdod Parc Cenedlaethol ddiddymu neu lacio unrhyw rai o'r cyfyngiadau a restrir uchod, cyn belled â'u bod yn weithgareddau cyfreithlon.

## O dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a oes gen i hawl i fynd â'm ci ar dir mynediad?

Oes, fel rheol, ond mae sawl cyfyngiad ar gŵn i sicrhau nad ydynt yn gwneud niwed i dda byw na bywyd gwyllt. Rhaid i gŵn fod ar dennyn byr, o hyd penodol (heb fod yn fwy na 2

fetr) rhwng Mawrth 1 a Gorffennaf 31, er mwyn diogelu adar sy'n nythu ar y ddaear, neu **ar unrhyw adeg** pan fyddant yn agos at dda byw.

Cofiwch fod y rheolau ar gyfer cŵn (bod gofyn eu cadw o dan reolaeth gaeth) yn dal i fodoli ar lwybrau cyhoeddus sy'n croesi tir mynediad. Byddai'r rheolau ar gyfer tir mynediad yn weithredol, fodd bynnag, pe crwydrai rhywun oddi ar lwybr Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n croesi tir mynediad. Mae cyfyngiadau eraill ar gŵn y gall perchnogion a deiliaid tir eu gorfodi (gweler adran 3). Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i gŵn tywys ar gyfer y deillion neu gŵn clywed ar gyfer y byddar. Dylai pobl gadw eu cŵn o dan reolaeth gaeth bob amser pan fyddant allan yn y wlad, hyd yn oed os nad oes tennyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

### **A yw'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i bobl farchogaeth ceffyl neu reidio beic ar draws tir mynediad?**

Bydd hawliau fel marchogaeth ceffylau a reidio beic yn dal i fod yn weithredol ar lwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sydd ar agor i bob traffig sy'n croesi tir mynediad, ond rhaid i bobl gadw at y llwybr sydd â'r hawl tramwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi perchnogion neu ddeiliaid i wneud cais am i'r cyfyngiadau defnydd gael eu llacio fel y gall pobl wneud pethau eraill, fel marchogaeth ceffylau, ar dir mynediad. Nid yw'r Ddeddf yn newid y sefyllfa mewn lleoedd lle caniateir gweithgareddau o'r fath.

### **Pa weithgareddau masnachol neu weithgareddau nas cynhwysir?**

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i bobl gynnal gweithgareddau sydd wedi eu trefnu ond sydd heb fod yn fasnachol, megis teithiau cerdded, dringfeydd, neu bicnics. Nid yw'r hawl yn cynnwys gweithgareddau sydd yn cael eu trefnu neu eu cynnal ar gyfer unrhyw ddiben masnachol. Dehongliad Cyfoeth Naturiol Cymru o 'ddiben masnachol' yw rhywbeth sydd yn anelu'n bennaf at wneud elw. Cred Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw gweithgareddau canolfannau hyfforddiant ac addysg awyr agored di-elw yn syrthio o fewn y cyfyngiad cyffredinol hwn. Fodd bynnag efallai na fydd y sefyllfa bob amser yn hollol eglur ac, fel sy'n wir gyda phob deddfwriaeth, mater i'r llysoedd fydd dehongli union ystyr y cyfyngiad hwn os, a phan fo achosion yn cyrraedd y llysoedd. Oherwydd hyn, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor diffiniol. Awgrymwn, fodd bynnag, y dylai pobl ofyn am gyngor cyfreithiol os tybiant fod diben masnachol i'w gweithgareddau. Os oes amheuaeth, dylai pobl ofyn am y caniatâd perthnasol oddi wrth berchnogion a deiliaid.

### **A yw mynediad ar droed yn cynnwys mynediad ar gyfer crwydro ceunentydd?**

Mae tir mynediad yn cynnwys dyfroedd, megis ceunentydd, sydd arno, ac mae hawl mynediad ar droed at y dyfroedd hynny at ddibenion hamdden awyr agored.

### **A yw mynediad ar droed yn cynnwys crwydro ceubyllau ac ogofa?**

Nac ydi. Oherwydd fod y Ddeddf CGHT yn caniatáu mynediad ar gyfer hamdden awyr agored, nid yw crwydro ceubyllau ac ogofa wedi'u cynnwys yn yr hawliau.

### **A yw'r hawliau mynediad yn cynnwys cludo canwau a gleiderau barcut ar draws tir mynediad?**



Nid yw canwïo a gleidio barcut ynghyd â chludo canwau a gleiderau barcut yn weithgareddau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf CGHT. Mae rhai perchnogion yn caniatáu i bobl gleidio barcut neu gludo canwau neu gleiderau barcut ar draws eu tir.

### **A yw'r hawliau hyn yn effeithio ar hawliau mynediad eraill?**

Nac ydynt. Nid yw'r Ddeddf CGHT yn effeithio ar hawliau mynediad o dan ddeddfwriaeth arall fel Deddf Cyfraith Eiddo 1925, deddfau preifat a chytundebau mynediad o dan Ran 5 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Bydd yr hawliau o dan y deddfau hyn yn parhau i fod yn weithredol, yn hytrach na'r hawliau Deddf CGHT. Mae mathau eraill o ddefnydd hamdden o dir a ganiateir gan y perchennog neu'r deiliad tir hefyd yn parhau'n ddigyfnewid. Nid yw darpariaethau mynediad agored y Ddeddf yn newid y cyfrifoldebau o ran llwybrau sydd â hawliau tramwy arnynt.

### **Sut mae pobl yn cyrraedd tir mynediad?**

Mewn sawl lle mae hawliau tramwy cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli yn arwain at, ac yn croesi ardaloedd mynediad. Dim ond trwy fynedfeydd penodol y dylid cyrraedd tir mynediad. Mae mynedfa benodol yn :

- gamfa (sticil) neu'n giât,
- pont neu gerrig camu ar gyfer croesi dŵr; neu
- agoriad amlwg mewn wal, ffens neu glawdd.

Sylwer bod agoriad amlwg yn golygu bwlch eglur rhwng gweddillion nodwedd derfyn, fel wal ddadfeiliedig. Nid yw'n golygu cerdded dros weddillion wal neu ffens sydd wedi torri.

Nid yw'r Ddeddf yn creu unrhyw hawliau i bobl groesi tir er mwyn cyrraedd tir mynediad. Felly nid oes gan bobl hawl i ddringo neu wthio'u ffordd drwy derfynau lle nad oes unrhyw fynedfeydd penodol. Fodd bynnag, gall yr awdurdod lleol drafod gyda pherchnogion er mwyn creu hawl tramwy (gorchymyn creu) lle bo angen un.

### **Beth sy'n digwydd os nad oes hawl tramwy cyhoeddus yn arwain at ardal o dir mynediad ac oddi wrtho?**

Dim ond trwy ddilyn hawl tramwy, neu trwy symud yn uniongyrchol o un darn o dir mynediad i un arall y bydd gan bobl hawl i gyrraedd tir mynediad. Efallai y caniateir i bobl ddefnyddio llwybrau eraill y cytunwyd arnynt gan y perchennog neu'r deiliad yn wirfoddol. Os nad oes hawl tramwy cyfreithiol at ddarn o dir agored neu dir comin, gall yr awdurdod lleol drafod gyda pherchnogion tir i greu hawl tramwy (gorchymyn creu) lle bo angen un. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wneud cais i'r Awdurdod Priffyrdd a gofyn iddo ystyried creu hawl tramwy a fydd yn arwain at ddarn o dir mynediad.

### **Beth ddylwn ei wneud os gwelaf fod mynediad i dir mynediad wedi cael ei rwystro?**

Os bydd mynediad i dir mynediad wedi ei rwystro, dylech roi gwybod i'r awdurdod mynediad (yr awdurdod lleol neu awdurdod y Parc Cenedlaethol).

### **A fydd ffiniau tiroedd mynediad a'r mynedfeydd penodol iddynt yn cael eu nodi ar lawr gwlad?**

Bydd gan yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol rymoedd rheoli mynediad ar y tiroedd mynediad, felly gallant farcio tir mynediad a mynedfeydd penodol allan yn y wlad.

### **3. Hawliau a chyfrifoldebau perchnogion a deiliaid tir**

#### **A yw perchnogion a deiliaid tir yn derbyn iawndal oherwydd bod hawl mynediad i'w tir?**

Nid oes hawl cyffredinol i iawndal. Nid yw darpariaethau mynediad y Ddeddf yn cynnwys cyfyngu ar y defnydd o dir mynediad neu'r datblygu arno. Er mwyn gofalu nad yw hawliau defnyddwyr yn ymyrryd â rheolaeth tir, mae darpariaeth hefyd i berchnogion tir gau tir mynediad am resymau yn ymwneud â rheoli'r tir, a hyd at 28 diwrnod am unrhyw reswm. Mae darpariaethau hefyd er mwyn i berchnogion tir gyfyngu ar fynediad i gŵn (Gweler isod yn yr adran hon).

#### **A yw gwerth tir yn llai oherwydd ei fod wedi'i fapio'n dir mynediad?**

Nid oes unrhyw dystiolaeth fod tir yn werth llai o ganlyniad i'r Ddeddf CGHT.

#### **Beth yw'r cyfyngiadau ar newid defnydd tir sydd wedi ei ddynodi'n dir mynediad?**

Nid yw'r Ddeddf CGHT yn cyfyngu ar ddatblygu tir dim ond oherwydd ei fod wedi'i ddynodi'n dir mynediad.

#### **A yw'r Ddeddf CGHT yn gwahardd perchnogion a deiliaid tir rhag codi ffensys ar dir mynediad?**

Nac ydi. Gall perchnogion a deiliaid tir ddal i godi ffensys ar dir mynediad cyhyd ag y darperir cyfleoedd rhesymol ar gyfer mynediad i'r tir hwn drwy'r ffensys: ond dylai perchnogion a deiliaid tir sicrhau nad oes cyfyngiadau eraill ar waith ffensio, fel y rhai sy'n bodoli ar dir comin.

#### **Pwy sy'n talu am gamfeydd (sticlau) a giatiau ar dir mynediad?**

Mae'r awdurdodau lleol neu'r Parciau Cenedlaethol yn aml yn darparu camfeydd a giatiau ar dir mynediad.

#### **Oes rhaid gosod giât neu gamfa (sticil) mewn unrhyw ffens neu wal sy'n croesi tir mynediad?**

Mae gan yr awdurdod mynediad rym (nid dyletswydd) i ddarparu camfeydd a giatiau.

Pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw camfeydd a giatiau fel eu bod yn gweithio'n effeithiol? Y perchennog tir sy'n bennaf gyfrifol am gynnal a chadw camfeydd a giatiau. Fodd bynnag, mae gan yr awdurdod mynediad rym, nid dyletswydd, i helpu gydag unrhyw waith a'r costau cysylltiedig.

## Beth yw'r effaith ar gytundebau rheoli sy'n bodoli eisoes?

Pan ddêl tir yn dir mynediad, bydd unrhyw gytundebau neu daliadau gwirfoddol ar gyfer mynediad agored yn parhau yn unol â thelerau'r cytundeb hwnnw, neu hyd nes daw'r cytundeb i ben, neu hyd at y cyfnod adolygu neu'r man terfynu nesaf.

## Beth sy'n digwydd os bydd angen i mi wneud gwaith ar fy nhir a allai wrthdaro gyda mynediad cyhoeddus?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu canllaw ar gyfer rheoli mynediad gyda chymorth awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, NFU Cymru, UAC, CLA, BASC a Chymdeithas y Cerddwyr. Datblygwyd yr arweiniad gan gydweithredu â Natural England i sicrhau cysondeb wrth drin materion yng Nghymru a Lloegr. Mae'r arweiniad yn cyflwyno fframwaith i ddangos ble y gallai fod gwrthdaro o ran mynediad, a sut i benderfynu ar y trefniadau rheoli mwyaf priodol. Mae hefyd o gymorth i adnabod sefyllfaoedd pan na fydd unrhyw ddewis ond gwahardd neu gyfyngu mynediad.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i **berchnogion tir neu denantiaid amaethyddol** gau tir neu gyfyngu mynediad iddo am unrhyw reswm am gyfnod o hyd at 28 diwrnod mewn blwyddyn (ond nid ar rai diwrnodau penodol). Ni fydd angen caniatâd arnoch i gau tir fel hyn ond rhaid i chi ddweud ymlaen llaw wrth Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Parc Cenedlaethol. Os oes tenant amaethyddol, y tenant sydd i gael y defnydd ar bob un o'r 28 diwrnod. Ni chaniateir cau unrhyw ddarn tir am ragor na 28 diwrnod y flwyddyn heb ganiatâd. Yn achos coedwigoedd cyflwynedig, rhaid i berchnogion a thenantiaid ddweud wrth Cyfoeth Naturiol Cymru am achosion cau neu gyfyngu 28 diwrnod.

## A gaf i gau fy nhir ar gyfer dibenion rheoli tir, megis saethu, am gyfnod mwy na 28 diwrnod?

Yn ogystal â'r 28 diwrnod a ganiateir ar gyfer gwahardd neu gyfyngu ar fynediad a amlinellir uchod, gall **perchnogion tir a thenantiaid amaethyddol** wneud cais i Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Parc Cenedlaethol am orchymyn yn gwahardd neu'n cyfyngu ar fynediad i'w tir am resymau rheoli tir, atal perygl i'r cyhoedd, neu leihau perygl tân ar dywydd eithafol.

## Sut mae'r cyhoedd yn cael gwybod am unrhyw gyfyngiadau ar dir mynediad?

Pan fo'n bosibl mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan. Bydd arwyddion ger mynedfeydd penodol, fel arfer, hefyd.

## Pwy sy'n gyfrifol am osod arwyddion ar dir lle mae mynediad wedi ei gyfyngu?

Yn gyffredinol, y perchnogion a'r deiliaid sy'n gyfrifol am reoli mynediad mewn ardaloedd lle mae mynediad wedi ei gyfyngu neu'i wahardd. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwybod i'r cyhoedd allan ar y tiroedd eu hunain. Pan fo mynediad wedi ei gyfyngu am fwy na 6 mis, cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw hyn. Efallai y gall gwasanaethau wardeiniaid yr awdurdod lleol a'r Parciau Cenedlaethol fod o gymorth i ddweud wrth bobl am diroedd sydd wedi eu cau neu am fynediad cyfyngedig. Sylwer ei bod yn drosedd o dan Ran 1 o'r Ddeddf CGHT rhoi arwydd camarweiniol ar, neu'n agos at, dir mynediad a fydd yn atal mynediad i'r tir hwnnw.

## A allaf i gadw cŵn oddi ar fy nhir?

Bydd y sawl nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau ynghylch cadw eu ci ar dennyn ar dir mynediad yn tresmasu, a gellir mynnu eu bod yn gadael y tir. Mae'r Ddeddf CGHT yn rhoi hawl i dirfeddianwyr wahardd cŵn yn gyfan gwbl, gydol y flwyddyn, ar weunydd a reolir ar gyfer magu a saethu grugieir.

Mae gan **dirfeddiannwyr a thenantiaid amaethyddol** hawl i wahardd cŵn am unrhyw gyfnod o chwe wythnos mewn blwyddyn galendr ar gyfer wyna mewn man o hyd at 15 hectar sydd wedi'i gau amdano.

Bydd **perchnogion tir a thenantiaid amaethyddol** hefyd yn gallu defnyddio eu pwerau cyfyngu mynediad i wahardd cŵn am gyfnod o hyd at 28 diwrnod ar unrhyw ardal o dir mynediad. Nid oes angen caniatâd ar gyfer yr achosion hyn o gau tir neu gyfyngu ar fynediad ond rhaid i chi ddweud wrth Cyfoeth Naturiol Cymru os ydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn.

Gall **perchnogion tir a thenantiaid amaethyddol** hefyd wneud cais am ganiatâd i gyfyngu ar gŵn o dan y darpariaethau yn y Ddeddf ynglŷn â sefyllfaoedd eraill lle mae gofyn cau neu gyfyngu ar fynediad. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru neu awdurdod y Parc Cenedlaethol ystyried rhoi'r cyfyngiad hwn yn yr achosion hynny lle na fyddai'r rheolau ynglŷn â thennyn yn ateb y broblem benodol a oedd wedi arwain at y cais. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y grym hefyd i gyfyngu ar fynediad i gŵn at ddibenion cadwraeth natur os bydd y rheolau ynglŷn â thennyn yn annigonol.

Ni fydd y cyfyngiadau hyn yn berthnasol i gŵn tywys ar gyfer y deillion na chŵn clywed ar gyfer y byddar.

## Beth am afiechydon a heintiau sy'n cael eu cludo gan gŵn?

Efallai y bydd gan rhai ffermwyr bryderon ynglŷn â llyngyr hydatid. Dylai cŵn fferm gael eu trin rhag llyngyr yn rheolaidd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r pryder y gallai cŵn ymwelwyr gludo wyau'r parasit hwn i dir mynediad, gan beryglu'r achrediad gwarant Fferm. Gall gŵn godi'r llyngyr hyn trwy fwyta cyrff marw defaid neu gelanedd arall.

Fodd bynnag, gellir torri ar gylch bywyd y parasit trwy frechu cŵn. Gall cyrff defaid gynnwys codau hydatid sy'n cael eu bwyta gan y ci, felly mae hefyd yn bwysig atal cŵn rhag cael mynediad at gyrff defaid. Mae'n annhebygol y byddai cŵn nad ydynt yn byw ar ffermydd yn datblygu'r codau yma gan mai yn anaml iawn y byddant yn bwyta cyrff defaid. Dylai ymwelwyr sicrhau nad yw eu cŵn yn bwyta unrhyw greadur marw, gan gynnwys defaid marw, tra byddont allan yn y wlad.

Gall afiechydon eraill heintio cŵn a cherddwyr tra byddont allan yn y wlad. Er enghraifft, gall trogod defaid gludo firysau.

## 4. Atebolrwydd Deiliaid

### Beth yw Atebolrwydd Deiliaid?

O dan Ddeddf Atebolrwydd Deiliaid 1957, mae gan ddeiliad ddyletswydd gofal tuag at bobl a wahoddir neu a ganiateir i fod ar ei (th)dir. Mae Deddf Atebolrwydd Deiliaid 1984 yn ymestyn y ddyletswydd gofal i bobl eraill heblaw ymwelwyr, yn cynnwys tresmaswyr, ond dim ond os:

- yw'r perchennog neu'r deiliad yn gwybod am beryglon ar y tir a'r adeiladau sy'n eiddo iddo ef/iddi hi, neu os dylai wybod am y peryglon hynny;
- yw ef neu hi yn gwybod neu'n amau y gallai pobl fynd yn agos at y perygl hwnnw;
- y mae'r perygl yn un y gellid disgwyl yn rhesymol iddo ef neu iddi hi gynnig amddiffyniad yn ei herbyn.

Nid yw'r ddyletswydd gofal yma yn ymestyn at bobl sy'n mentro o'u gwirfodd.

### **Pwy yw'r deiliad?**

Efallai nad yw'n amlwg bob amser pwy yn union yw'r deiliad. Fel arfer y tenant neu'r perchennog-ddeiliad yw'r deiliad: ond os oes defnyddio contractwyr ar dir, a bod gan y contractwr reolaeth dros fynediad i'r safle gwaith, fel sy'n digwydd, er enghraifft, yn ystod gwaith cwmpo coed neu ddraenio tir, efallai mai'r contractwr fydd y deiliad. Ar dir lle bo is-orsaf drydan, er enghraifft, neu waith mewnllif dŵr, yr ymglymerwr gwasanaethau cyhoeddus yw'r deiliad.

### **Sut mae atebolrwydd perchnogion a deiliaid yn newid oherwydd fod mynediad i dir o dan y Ddeddf CGHT?**

Mae deiliaid yn atebol am ddiogelwch pobl ar eu tir o dan ddeddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf CGHT yn newid y gyfraith fel na fydd gan ddeiliaid ddyletswydd gofal mewn perthynas â pheryglon sy'n deillio o bresenoldeb nodweddion naturiol, afonydd, nentydd, pyllau, clogwyni neu ffosydd, neu beryglon sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio waliau, ffensys, neu giatiau ar eu tir, oni fu iddynt greu perygl yn fwriadol neu ganiatáu'n ddi-hid iddo fodoli. Wrth benderfynu pa ddyletswydd gofal sydd gan ddeiliad ar dir mynediad, rhaid ystyried y ffactorau canlynol :

- Y ffaith na ddylai presenoldeb hawl mynediad roi pwysau gormodol ar ddeiliaid, boed hwnnw'n bwysau ariannol neu'n unrhyw fath arall o bwysau;
- Pwysigrwydd cynnal cymeriad cefn gwlad, gan gynnwys nodweddion hanesyddol neu archeolegol;
- Unrhyw arweiniad perthnasol a roddir mewn canllawiau ymddygiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru;

### **Beth yw'r effaith ar atebolrwydd dros dresmaswyr os byddaf yn cau fy nhir?**

Nid yw'r lefel is o ddyletswydd gofal mewn perthynas â nodweddion naturiol, dŵr a chamddefnyddio nodweddion terfyn, fel y disgrifir uchod, ond yn berthnasol pan fydd gan y cyhoedd hawl mynediad i dir mynediad. Mae'r ddyletswydd gofal arferol tuag at dresmaswr yn weithredol tra bydd yr hawl mynediad o dan y Ddeddf CGHT yn cael ei wahardd neu'i gyfyngu.

### **Beth yw'r effaith ar atebolrwydd deiliaid mewn perthynas â mwyngloddiau a chwareli ar dir mynediad?**

O dan Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli 1954, rhaid i bob mwynglawdd neu chwarel segur, ar wahân i ambell eithriad, gael ei phlygio neu ei ffensio fel bod y mynedfeydd i'r siafftau wedi eu cau. Mae rhai mathau o chwareli nad ydynt wedi cael eu gweithio er 1872 wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn oni bônt yn agos at neu ar dir lle gall y cyhoedd gael mynediad. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob pwll glo lle mae'r Awdurdod Glo yn cymryd y cyfrifoldeb am ddiogelwch. Mae tir sy'n cynnwys mwyngloddiau a chwareli sy'n cael eu gweithio ar hyn o bryd, gan gynnwys y tomennydd gwastraff, yn cael ei ddsbarthu'n dir eithriedig, ac ni fydd hawl mynediad i'r tiroedd hyn.

Nid yw'r Ddeddf CGHT yn newid y sefyllfa ar dir sydd eisoes yn agored i'r cyhoedd – mae Adran 151 o Ddeddf Mwyngloddiau a Chwareli 1954 mewn grym yn barod, a dylai'r deiliaid sicrhau bod unrhyw weithfeydd segur yn ddiogel. Ond ar dir mynediad, gall cyflwyno mynediad cyhoeddus olygu y bydd Adran 151 yn dod i rym oherwydd bydd y tir wedyn yn gyrchfan cyhoeddus ('place of public resort'). O ganlyniad, gallai rhwymedigaeth godi. Tan Adran 42 o'r Ddeddf CGHT, mae gan y Llywodraeth rym i gyflwyno rheoliadau i atal Adran 151 rhag dod i rym ar dir mynediad. Os penderfyna ddefnyddio'r grymoedd hyn, bydd y status quo yn parhau ac efallai na fydd y rhwymedigaeth hon yn codi.

### **Oes gan berchnogion a deiliaid tir ddyletswydd gofal, o dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, tuag at y cyhoedd ar dir mynediad?**

Mae deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn berthnasol yn gyffredinol i'r gweithle. Bydd gan berchnogion a deiliaid sydd hefyd yn gyflogwyr gyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth - nid yn unig i'r rhai y maent yn eu cyflogi, ond hefyd i'r cyhoedd yn gyffredinol. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yw'r rheoliadau mwyaf perthnasol. Bydd methiant i gydymffurfio â'r rheoliadau yn cael ei ystyried yn dramgwydd trosedd: gall atebolrwydd sifil hefyd godi os bydd damwain i aelod o'r cyhoedd yn digwydd o ganlyniad i weithgareddau busnes. Mae'r rheoliadau hyn yn mynnu bod cyflogwyr (a'r sawl sy'n hunan- gyflogedig) yn asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau busnes a gweithredu i leihau unrhyw berygl annerbyniol. Bydd y ffactorau canlynol yn dylanwadu ar y math o weithredu y bydd gofyn i'r cyflogwr ei gyflawni:

- amser, trafferth a thraul cymryd camau rhagofalus i adlewyrchu'r perygl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa; a
- pha mor effeithiol fydd y camau rhagofalus hynny.

Mae'r gofyniad i ymgymryd ag asesiadau perygl yn weithredol (o dan y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ) ac mae llawer o gyngor ynglŷn â sut y gellir ymgymryd ag asesiadau perygl e.e. Model yr NFU o Asesiad Risg ar gyfer Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a chyhoeddiadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ('HSE') megis y 'Y Pum Cam tuag at Asesu Perygl' ('Five Steps to Risk Assessment'): ond dylid adolygu'r asesiadau sydd wedi eu paratoi eisoes lle creir mynediad. Os bydd perygl newydd yn cael ei ganfod (neu os bydd peryglon sydd eisoes yn bodoli yn cynyddu) efallai y bydd angen i'r cyflogwr weithredu. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd angen gweithredu pellach. Mewn sefyllfaoedd eraill efallai y bydd camau rhagofalus syml neu rybuddion yn briodol, ond mewn achosion eraill efallai mai defnyddio cyfyngiadau fydd yr unig ddewis. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, mae gofynion deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn cael blaenoriaeth. Ar dir mynediad, efallai y bydd y sawl sy'n rhedeg y busnes eisieu cyfyngu ar y mynediad cyhoeddus: ond pan fo eithriadau yn weithredol dylid nodi bod unrhyw un sy'n camu ar y tir yn gwneud hynny fel tresmaswr, ac na fyddai'r lefel is o ddyletswydd gofal ar ddeiliaid yn weithredol.

## **A yw perchnogion tir yn cael eu cynghori i godi rhagor o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus os ydynt yn berchen ar dir lle mae hawliau mynediad mewn grym?**

Nid yw'n orfodol i berchnogion tir gael yswiriant. Deallwn gan nifer o yswirwyr fod y bygythiad i bobl sy'n cerdded allan yn y wlad yn isel, ac er bod taliadau premiwm yswiriant yn cynyddu oherwydd y cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion o hawlio iawndal, nad yw hyn yn digwydd o ganlyniad i'r Ddeddf CGHT. Yn gyffredinol, mae ymchwil wedi dod i'r casgliad nad yw'r peryglon hyn fel arfer yn peri bygythiad arwyddocaol i'r rhai sy'n defnyddio hawliau mynediad, yn enwedig os bydd rheolwyr tir yn gweithredu yn unol ag arfer da a bod defnyddwyr yn defnyddio synnwyr cyffredin. Adlewyrchir y lefel isel o berygl sy'n wynebu'r cyhoedd yn y nifer o achosion o hawlio iawndal sy'n cyrraedd yswirwyr. Yn ystod 2002, roedd Cymdeithas Yswirwyr Prydain (Association of British Insurers neu ABI) o'r farn mai dim ond cyfran fechan o gyfanswm yr achosion o hawlio oedd y rhai yn ymwneud â damweiniau allan yng nghefn gwlad, ac o'r herwydd nid oeddent yn cael eu dosbarthu ar wahân. Yn 1998, a chyn dyfodiad y Ddeddf CGHT, roedd y dystiolaeth a gyfrannodd NFU Mutual tuag at astudiaeth ar ran Adran yr Amgylchedd, Cludiant a'r Rhanbarthau ('DETR'), fel yr oedd bryd hynny, yn datgan "nad oedd ganddynt hanes o achosion difrifol o hawlio iawndal yn deillio o bresenoldeb y cyhoedd ar dir fferm". Mae'r broceriaid sy'n darparu yswiriant ar gyfer aelodau BASC ('British Association for Shooting and Conservation') wedi dweud nad oes ganddynt dystiolaeth o adroddiadau sydd wedi arwain at achosion o hawlio iawndal gan aelodau'r cyhoedd am niwed a ddigwyddodd iddynt hwy wrth arfer eu hawl mynediad gyfreithiol dros dir lle mae aelodau BASC yn arfer eu hawliau helwriaeth hwythau, neu unrhyw weithgareddau BASC eraill.

## **A yw perchnogion a deiliaid tir yn atebol os bydd cerddwraig feichiog yn comesgor ar ôl dod i gysylltiad â baw neu droeth (piso) defaid?**

Dylai gweithwyr iechedd rybuddio, ac y maent yn rhybuddio menywod beichiog ynglŷn â pheryglon sydd ynghlwm wrth weithgareddau sy'n golygu dod i gysylltiad â'r pridd. Dylai perchnogion a deiliaid tir ddisgwyl i ymwelwyr un ai osgoi neu dderbyn perygl o'r fath.

## **A oes gofyn i berchnogion a deiliaid tir sicrhau nad yw'r da byw ar dir mynediad yn debygol o fod yn fath a allai fod yn beryglus, fel sy'n wir ar hyd hawliau tramwy cyhoeddus?**

Mewn perthynas â'r mater yma, nid oes unrhyw beth yn y Ddeddf CGHT sydd mor benodol â'r hyn a geir yn y ddeddf sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus. O dan Ddeddf Anifeiliaid 1971, fe allai perchnogion da byw fod yn atebol am unrhyw niwed i bobl a achosir gan dda byw, lle maent yn gwybod y bydd y da byw yn ymateb mewn ffordd beryglus. Byddai gofyn i'r perchennog neu'r deiliad tir ystyried y perygl a'r atebolrwydd tebygol tuag at y cyhoedd wrth ollwng da byw, y mae ef neu hi yn gwybod y gallent fod yn beryglus, mewn mannau ac o dan amgylchiadau a allai roi'r cyhoedd mewn perygl.

## **Sut mae'r Ddeddf yn ymdrin â thresmasu?**

Oni fydd pobl yn cydymffurfio gyda threfniadau cau tir neu gydag unrhyw gyfyngiadau a osodir ar dir mynediad, maent yn dresmaswyr, a gall y perchennog tir, y deiliad neu unrhyw un sydd â grym o dan unrhyw is-ddeddfau perthnasol i'r tir (e.e. warden) ofyn iddynt adael. Bydd eu hawliau mynediad i'r tir dan sylw ac i unrhyw dir arall o dan yr un

berchnogaeth yn cael eu diddymu yn awtomatig am 72 awr. Mae tresmasu ar dir preifat yn parhau i fod yn gamwri sifil. Fodd bynnag, pe bai unrhyw is-ddeddf sy'n gallu cael ei gorfodi gan warden, yn cael ei thorri, byddai hynny'n dramgwydd troseddol a allai arwain at gosbau bychain.

## 5. Mapio tir mynediad

### A gaf fi wrthwynebu mapio fy nhir yn dir mynediad?

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i adolygu'r mapiau bob 10 mlynedd o leiaf. Caiff y mapiau eu cynhyrchu ar ffurfiau drafft, dros dro a therfynol. Mae cyfle i bobl ddweud wrthym a yw'r tir wedi ei fapio yn anghywir yn dir comin neu'n gefn gwlad agored. Gall y cyhoedd a pherchnogion a deiliaid tir wneud sylwadau ar y mapiau '**drafft**' cyntaf sy'n dangos ffiniau cefn gwlad agored a thir comin (o gofrestrau tiroedd comin). Byddwn wedyn yn cynhyrchu mapiau '**dros dro**' a fydd yn cymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd ar y mapiau drafft. Dyma pryd y bydd pobl sydd â buddiant cyfreithiol yn y tir yn gallu apelio at yr Arolygiaeth Gynllunio (sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru) os ydynt yn meddwl bod eu tir wedi ei ddangos yn anghywir fel cefn gwlad agored neu'n dir comin. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio wedyn yn penderfynu ar yr apeliadau ac yn dweud wrthym i gynhyrchu map '**terfynol**'.

### Pa ffriddoedd neu dir coed cae sy'n cael eu cynnwys yn gefn gwlad agored?

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mapio tir a adwaenir yn ffridd neu'n goed cae, neu'n dir sy'n cael ei ddefnyddio'n ffridd neu'n goed cae, ond lle mae'n cyflawni ein meini prawf ninnau ar gyfer diffinio cefn gwlad agored. Felly, rydym yn tueddu i beidio â mapio ardaloedd llai a'r rhai sy'n cael eu rheoli'n ddwys oherwydd bod y rhain fel rheol yn cynnal glaswelltir wedi ei led wella neu ei wella, ac nid ydynt felly yn agored o ran eu cymeriad. Ond bydd rhai ardaloedd mwy, agored, gyda rhostir, mignenni, rhedyn neu laswelltir asid heb ei wella yn cael eu mapio lle maen nhw'n bodloni ein meini prawf ar gyfer dynodi mynydd, gweundir neu rostir. Er i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried ffridd a choed cae fel mathau penodol o dir yn ystod yr ymarferiad mapio peilot yn ôl yn 1999, nid yw'r Ddeddf yn cyfeirio atynt ac felly ni allwn eu defnyddio. Hefyd, rydym yn gallu defnyddio ein meini prawf gwrthrychol i ddiffinio tir agored mewn dull cyson ar hyd a lled Cymru. Mae *ffridd a choed cae* yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol ledled y wlad, a byddai'n amhosib defnyddio termau o'r fath yn gyson, yn enwedig gan fod y llystyfiant, y lleoliad a maint y math yma o dir mor amrywiol.

### A yw tir o gwmpas ffermydd gwynt yn cael ei eithrio?

Gall ffermydd gwynt gael eu lleoli mewn cefn gwlad agored ac ar dir comin. Byddai pob un tyrbin gwynt yn cael ei ystyried yn adeilad. Felly byddai'r tyrbin a'r tir datblygedig yn union o'i gwmpas yn cael eu hystyried yn dir wedi ei eithrio o dan Atodlen 1 o'r Ddeddf CGHT.

### Beth sy'n digwydd i dir comin a dynnir oddi ar y gofrestr tiroedd comin?

Ni thynnir tir comin cofrestredig oddi ar fapiau 'terfynol' Cyfoeth Naturiol Cymru oni:

- chafodd y cais i ddatgofrestru ei wneud cyn 30 Tachwedd 2000 a bod y cais yn llwyddiannus;



- onid yw'r tir yn destun gorchymyn prynu gorfodol, adfeddiant neu werthiant;
- onid yw tir arall yn cael ei gofrestru'n dir comin yn lle'r darn sy'n cael ei dynnu oddi ar y gofrestr.

### **A yw'r mapiau'n dangos y coetiroedd hynny lle mae hawliau mynediad?**

Mae gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru a mapiau Explorer yr Arolwg Ordnans yn dangos hyn. Fodd bynnag, rhaid i fapiau terfynol Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos yr holl dir agored a'r tir comin sydd wedi ei gofrestru, ond nid ydynt yn dangos y gwahaniaeth rhwng ardaloedd sy'n goetir a'r rhai hynny nad ydynt yn goetir.

### **A yw'r canran o dir sy'n cael ei fapio'n gefn gwlad agored neu'n dir comin cofrestredig yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr?**

Mae gan Gymru ganran uwch o gefn gwlad agored a thir comin na Lloegr.

### **Pa mor aml fydd y mapiau mynediad yn cael eu hadolygu?**

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r mapiau gael eu hadolygu o leiaf unwaith bob 10 mlynedd. Cwblhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu'r map terfynol gwreiddiol ym Medi 2014.

### **Ble gallaf i ddarganfod mwy am waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar fapiau mynediad?**

Gallwch ganfod rhagor ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## **6. Cadwraeth Natur**

### **Sut mae mynediad yn effeithio ar gadwraeth natur?**

Credwn mai anaml iawn y mae'r hawliau mynediad yn gwrthdaro gyda chadwraeth natur. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol rymoedd cyfyngu ar fynediad os bydd rhaid. Gellir atal mynediad i safleoedd treftadaeth sensitif neu gyfyngu arno os bydd angen, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

## **7. Wardeiniaid**

### **A oes rhagor o wardeiniaid ar gael i reoli mynediad ar dir mynediad?**

O dan y Ddeddf CGHT, mae gan yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol rymoedd penodi wardeiniaid ar dir mynediad. Gall wardeiniaid weithio gyda pherchnogion a deiliaid tir i reoli mynediad a helpu ymwelwyr i fwynhau cefn gwlad mewn ffordd gyfrifol. Mae wardeiniaid hefyd yn gallu rhoi cyngor i bobl sy'n ymweld â thir mynediad ac i berchnogion a deiliaid tir ynglŷn â materion mynediad. Bydd eu swyddogaeth yn cynnwys sicrhau bod pawb sy'n defnyddio cefn gwlad yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae gan wardeiniaid hefyd rymoedd sicrhau bod pawb yn cadw at is-ddeddfau. Deddfau a wneir gan awdurdodau lleol i ymdrin â materion lleol yw is-ddeddfau. Mae torri is-ddeddf yn dramgwydd troseddol a gellir cael cosb fechan am wneud hynny.

## 8. Fforymau Mynediad

### Beth yw Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru?

Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn gorff cynghori anstatudol. Cynrychiolir amrywiaeth eang o fuddiannau gwahanol ar y fforwm hwn, megis perchenogi/rheoli tir, hamdden a chadwraeth natur. Mae'r Fforwm yn cael ei weinyddu a'i gadeirio gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Ei brif ddiben yw rhoi cyngor i Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â materion yn ymwneud â mynediad i gefn gwlad yng Nghymru

### Beth yw Fforymau Mynediad Lleol?

Rhoddodd y Ddeddf CGHT ddyletswydd ar awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol i sefydlu Fforymau Mynediad Lleol.

Bydd y fforymau hyn yn cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar y ffyrdd posibl o wella mynediad lleol. Diben statudol y Fforymau Lleol yw gwella mynediad cyhoeddus i diroedd ar gyfer hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal. Rhaid i'r Fforymau ystyried anghenion rheoli tir, harddwch naturiol, planhigion ac anifeiliaid a nodweddion daearegol a ffisiograffigol. Rhaid i'r cyrff canlynol ystyried unrhyw gyngor perthnasol a roddir gan y Fforymau Mynediad Lleol: awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, awdurdodau priffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac, ar gyfer materion yn ymwneud ag amddiffyn neu ddiogelwch, yr Ysgrifennydd Gwladol.

Penodir aelodau gan yr awdurdod priffyrdd lleol neu awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Rhaid i'r fforymau gynnwys cynrychiolaeth gytbwys o blith:

- defnyddwyr tir mynediad a hawliau tramwy lleol;
- perchnogion a deiliaid ardaloedd o dir mynediad a thir gyda hawliau tramwy.

Bydd cynrychiolaeth hefyd o blith pobl gyda buddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal. Er bod y Rheoliadau'n dweud na ddylid cael rhagor na 22 aelod fel rheol, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gall y Cadeirydd wahodd unigolion a mudiadau eraill i arsylwi a rhoi cyngor. Mae pob Fforwm Mynediad Lleol yn cynhyrchu adroddiad blynyddol mor fuan â phosib ar ôl 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd y rhain ar gael gan yr awdurdodau lleol a'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol perthnasol.

### Beth yw ffiniau ardaloedd y Fforymau Mynediad Lleol?

Yn y mwyafrif o achosion mae ardaloedd y Fforymau Mynediad Lleol wedi eu seilio ar ffiniau'r awdurdodau unedol a'r Parciau Cenedlaethol.

## 9. Cyhoeddusrwydd

### Sut y gwn i ble mae gennyf hawl mynd iddo?

Gallwch edrych ar fapiau sy'n dangos tir mynediad a nodweddion eraill a allai fod o ddiddordeb, megis llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo a Llwybrau Cenedlaethol ar wefan

Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Arolwg Ordnans yn dangos yr holl dir lle mae gan y cyhoedd hawl mynediad ar eu mapiau Explorer 1:25,000.

### **A yw mynedfeydd penodol i dir mynediad yn cael eu dangos ar fapiau?**

Mae'r Arolwg Ordnans wedi penderfynu y byddai dangos mynedfeydd penodol i dir mynediad yn cymhlethu mapiau ac yn eu gorlwytho â gwybodaeth: ond maent yn dangos y prif fannau lle bydd gwybodaeth ar gael ynglŷn â thir mynediad.

### **Pa gamau sy'n cael eu cymryd i rannu gwybodaeth ac i addysgu'r cyhoedd ynglŷn â'r hawliau a'r cyfrifoldebau?**

Mae gwybodaeth ac addysg yn greiddiol i bob un o'r materion uchod. Ymysg y camau sydd wedi eu cymryd mae:

- Adolygu ac ail-lansio'r Cod Cefn Gwlad (Haf 2012).
- Dangos tir hygyrch a thir lle mae'r hawliau mynediad wedi eu cyfyngu neu eu heithrio ar ein gwefan.
- Darparu gwybodaeth i'r Arolwg Ordnans fel bo tir mynediad yn cael ei ddangos ar eu Mapiau Explorer.
- Creu symbol ar gyfer tir mynediad.
- Gweithio gyda Natural England i sicrhau cysondeb.